

CYLCHGRAWN AR GYFER FFERMIO A CHOEDWIGAETH YNIGNGHYMRU

cyswllt FFERMIO



**FARMING
connect**
cyswllt
FFERMIO

08456 000 813

**Cyhoeddi aelodau
Academi Amaeth
2019**

**Ffarmwraig ddefaid
o Geredigion yn
benderfynol o fod y
gorau y gall hi fod**



**Cronfa Amaethyddol Ewrop ar
gyfer Datblygu Gwledig:**
Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
**European Agricultural Fund for
Rural Development:**
Europe Investing in Rural Areas



**Llywodraeth Cymru
Welsh Government**

Waeth sut fydd yfory, mae'n bryd cynllunio ar gyfer y dyfodol nawr! Dewch i'n gweld yn Sioe Frenhinol Cymru i ddweud eich dweud!

Pwyslais Cyswllt Ffermio yn y Sioe Frenhinol eleni (22-25 Gorffennaf, Llanelwedd) fydd dangos y gefnogaeth, cyfarwyddyd, hyfforddiant a mentora sydd ar gael i ffermwyr a choedwigwyr yng Nghymru trwy ei raglen 'siop un stop' amlochrog unigryw. Gyda'r rhan fwyaf o'r gwasanaethau naill ai wedi eu hariannu'n llawn neu gyda chymhorthdal o hyd at 80%, mae hwn yn gyfle y mae dros 10,000 o fusnesau wedi cael budd ohono.

O ystyried yr ansicrwydd economaidd a gwleidyddol presennol, mae Eirwen Williams, cyfarwyddwr rhaglenni gwledig gyda Menter a Busnes, sy'n darparu Cyswllt Ffermio gyda Lantra Cymru ar ran Llywodraeth Cymru, yn dweud na fu amser pwysicach erioed i'r diwydiant, perchnogion busnes yn arbennig, baratoi ar gyfer y dyfodol a sicrhau bod pob busnes yn cyflawni ei botensial ar draws pob maes.

"Yn y Sioe Frenhinol eleni, byddwn yn lansio enwau a lleoliadau'r rhwydwaith o fusnesau a recriwtiwyd fel safleoedd arddangos.

"Rydym yn gobeithio y byddwch yn dod i'n gweld yn Adeilad Lantra (Rhodfa K) lle bydd ein timau technegol a'n swyddogion datblygu rhanbarthol yn ceisio cael ymateb y diwydiant wrth i ni gynllunio'r rownd nesaf o dreialon a phrosiectau ar gyfer y rhwydwaith arddangos fel rhan o'r cylch cyflwyno tair blynedd.

"Profwch heddiw y gwahanol systemau y gallwch eu gweithredu yn hyderus a gwybodus yfory" fydd ein mantra wrth i ni gynllunio rhaglen gynhwysfawr o ddyddiau agored a digwyddiadau i sicrhau bod y diwydiant yn dysgu oddi wrth yr ymchwil mwyaf cyfredol, y dechnoleg fwyaf blaengar a ffyrdd arloesol, mwy effeithlon a phroffidiol o weithio," dywedodd Mrs Williams.

Os oes gennych unrhyw awgrymiadau ar sut y gall amaethyddiaeth gyfrannu at darged Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, a barn am y 'pethau gorau' yng Nghymru wledig, dylech roi eich amser i ymweld â Bwth Amaeth Cyswllt Ffermio, yn Adeilad Lantra hefyd. Mae'n rhan o gynllun 'laith y Pridd' Cyswllt Ffermio sy'n annog busnesau Cymru i ychwanegu gwerth at eu cynnyrch trwy ddefnyddio'r iaith a'r dreftadaeth Gymreig ac mae'n gyfle i chi roi eich barn i helpu i siapio'r gwasanaethau Cymraeg a roddir i'r diwydiant yn y dyfodol.

Bydd cyfle i chi 'gyfarfod mentor' bob dydd yn y sioe am 2.30pm, ac mae

Cyswllt Ffermio yn gobeithio y bydd hyn yn eich annog i ymgeisio am hyd at 22.5 awr o gefnogaeth annibynnol wedi ei hariannu yn llawn ar unrhyw sialensiau penodol neu bryderon all fod gennych. Ewch i wefan Cyswllt Ffermio i ddysgu rhagor am y cynllun poblogaidd hwn.

Bydd y stondin yn cynnwys taflenni gwybodaeth, podlediadau a fideos a fydd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am amrediad o faterion, yn ogystal â llyfrynau am iechyd a diogelwch ar y fferm.

"Yn anffodus, mae gan amaethyddiaeth nifer uwch o ddamweiniau yn y gweithle na bron unrhyw sector arall. Rydym yn eich annog i ddod i'r stondin a chymryd un o'n llyfrynau defnyddiol. Hyd yn oed os mai dim ond un o aelodau eich teulu fydd yn ei ddarllen ac yn cymryd rhai camau syml, byddwch wedi helpu i leihau'r risg o ddamwain ar y fferm. Yn ogystal, efallai y bydd teuluoedd yn dymuno troi at y 'gornel blant' boblogaidd, lle y cynhelir cystadlaethau dyddiol er mwyn helpu plant i adnabod safleoedd peryglus posibl ar ffermydd," dywedodd Mrs Williams.



Ffermwr bîff yn haneru ei gyfnod gaeafu dan do trwy bori gwartheg ar gylchdro



Gallai cynhyrchwyr bîff haneru eu cyfnod gaeafu dan do a'r costau cysylltiedig trwy sefydlu system bori cylchdro.

Profodd James Evans bod hyn yn bosibl ers iddo sefydlu'r system bori ar gyfer y fuches o 300 o wartheg Stabiliser y mae'n ei chadw ar gytundeb ffermio ar gontract.

Mae wedi byrhau'r cyfnod dan do o chwe mis i ddim ond tri a lleihau'r defnydd o silwair o 50%.

Yn ystod digwyddiad Trosglwyddo Gwybodaeth Cyswllt Ffermio yng Ngheredigion, cyfaddefodd Mr Evans bod penderfyniad i droi at gynhyrchu organig gan berchnogion y fferm wedi newid ei agwedd at laswellt sy'n cael ei bori.

"Yn hytrach na derbyn llai o elw a chynhyrchiant trwy gadw pethau fel yr oeddynt, fe wnaethom benderfynu canolbwyntio mwy ar laswellt," dywedodd Mr Evans, sy'n ffermio Partridge Farm, Bishop's Castle.

Cyflogodd ymgynghorydd pori fel 'pâr ffres o lygaid'. "Fe wnaeth i mi sylweddoli nad oeddem yn defnyddio glaswellt yn y ffordd y dylem," dywedodd Mr Evans wrth ffermwyr a ddaeth i'r digwyddiad ar Fferm Penrallt, Llantwyd, oedd wedi ei westeio gan Geraint Evans.

Crëwyd cyfres o badogau un hectar (Ha) trwy sefydlu ffens drydan rannol barhaol o amgylch tu allan yr ardal a benodwyd i'w phori a rhannu'r rhain ymhellach gyda ffens drydan.

Mae pob padog yn cael ei bori am ddau i dri diwrnod gan 40-50 o fuchod a'u lloeau.

Cyflenwir dŵr i bob padog trwy gafnau symudol a gysylltir â phibellau dŵr uwch ben y ddaear.

Mae'r system hon wedi helpu i oresgyn y sialens o gyflenwi dŵr yfed i bob padog.

"Rydym wedi gosod y pibelli ar wyneb y tir ac mae hynny yn gadael i ni gael cafn dŵr symudol, y gallwn ei symud o gwmpas pob padog."

Mae'r holl deirw magu yn cael eu porthi ar laswellt pan fyddant yn cael eu gwerthu yn 18 mis ac mae hyn yn creu diddordeb ychwanegol ymhlith prynwyr, dywedodd Mr Evans. "Mae galw am deirw sydd wedi cael eu magu ar laswellt ac yn perfformio yn dda arno. Mae ffermwyr eisiau geneteg sydd wedi cael ei phrofi ar laswellt."

Dywedodd Sarah Hughes, Swyddog Technegol Cig Coch Cyswllt Ffermio (De Orllewin Cymru), a drefnodd y digwyddiad ar Fferm Penrallt, bod Mr Evans wedi dangos, trwy ganolbwyntio ar reoli glaswelltir, ei bod yn bosibl i ffermwyr leihau eu costau.

"Mewn arolwg meincnodi yn ddiweddar, roedd y 25% uchaf o ffermwyr yn monitro eu gorbenion, gan ganolbwyntio ar fanylion a deall eu marchnadoedd. Mae gwell defnydd o laswellt sy'n cael ei bori yn rhan o hynny," dywedodd.

Roedd y digwyddiad gan Cyswllt Ffermio hefyd yn gyfle i ffermwyr ddysgu mwy am BeefQ, prosiect sy'n anelu at gynyddu ansawdd a gwerth cynhyrchu Biff yng Nghymru trwy brofi a dangos gwell system o raddio ansawdd carcass ar sail model Safonau Cig Awstralia (MSA). Cefnogir y prosiect hwn gan Raglen Ddatblygu Gwledig - Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru 2014-2020 sy'n anelu i fod yn sail i ffurfio system asesu ansawdd bwyta yng Nghymru.

Dywedodd Dr Eleri Price, Hybu Cig Cymru, bod y prosiect yn cynnig cyfle cyffrous i gynhyrchwyr bîff yng Nghymru.

Ewch i: www.beefq.wales am ragor o wybodaeth.

Awgrymiadau James Evans i drosi i system bori gylchdro

1. Mynnwch help arbenigol. "Mae cael pâr arall o lygaid ar y fferm yn amhrisiadwy; yn aml nid ydym yn gweld beth sydd angen ei wneud oherwydd ein bod yn rhy agos at ein busnes ein hunain."
2. Dewch i'r arfer o wario arian mewn ffyrdd gwahanol. Buddsoddodd Mr Evans £15,000 i sefydlu system bori gylchdro, ond taliad unwaith ac am byth oedd hwn. "Roedd yn ymddangos yn llawer o arian ar y pryd er na fyddem wedi meddwl ddwywaith am wario £15,000 am brynu ychydig lwythi neu gyfnewid peiriant dan yr hen system."
3. Porwch badog am hyd at dri diwrnod ac yna gadewch iddo orffwys. "Gwnewch iddynt fwyta popeth, ac mewn amser, byddwch yn gwella porfa barhaol a fyddai wedi cael ei ystyried yn anfwytadwy yn y gorffennol."
4. Bydd seilwaith da yn gwneud rheoli yn haws.

GALL GENETEG GYNYDDU CYNHYRCHIAN A THORRI COSTAU AR FFERMYDD DEFAID CYMRU



Gall rheoli porfa gael dylanwad ar broffidioldeb ffermydd defaid Cymru yn y cyfnod byr ond bydd geneteg yn cynnig enillion tymor hir, yn ôl arbenigwr defaid a phori enwog yn rhyngwladol.

Dywed Murray Rohloff, sydd yng Nghymru i gyflwyno cyfres o sgysiau ar ffermydd i Cyswllt Ffermio, bod cael gwared o gymhorthdal wedi gorfodi ffermwyr defaid Seland Newydd i werthuso eu systemau.

Eu pwyslais ar wella geneteg sydd wedi rhoi'r enillion mwyaf – mae Seland Newydd yn defnyddio llai o wrthfotigau mewn anifeiliaid mawr na phob un ond dwy wlad arall oherwydd bod y ffermwyr wedi magu anifeiliaid sy'n galed ac â gwrthedd i afiechydon fel clwy'r traed, llyngyr a chynrhon.

Cynghorodd y ffermwyr i gael rheolaeth o'u dyfodol trwy ddewis y bridiwr cywir.

“Bydd y cyfeiriad y bydd eich diadell yn mynd iddo yn adlewyrchu polisi eich bridiwr am cyn hired ag y bydd yr epil yn aros yn eich diadell,” dywedodd Mr Rohloff.

Mae mynegai mamol yn rhoi saith gwaith yr elw a roddir gan fynegai tadol os bydd ŵyn benyw yn cael eu cadw i fridio, cyfrifodd. “Mae'r anifail yn aros o gwmpas y fferm am nifer o flynyddoedd yn gwneud y gwaith.”

Cyn i gymorthdaliadau gael eu diddymu yn Seland Newydd roedd 4,000 o fridwyr hyrddod pedigri, ond erbyn hyn mae llai na 600, gyda llai na 100 o'r rhain yn cyflenwi 80% o'r farchnad.

“Mae'r un sy'n llwyddo i gyflenwi'r nwyddau yn gwerthu hyrddod,” awgrymodd Mr Rohloff. “Mae'r bridwyr yma yn cyflenwi geneteg i ddefaid sy'n hawdd eu hwna, yn gallu magu yn dda ac yn galluogi cynnydd o ran cynhyrchiant.”

Er mwyn gwneud y gorau o werth geneteg, rhaid i'r borfa gael ei rheoli yn dda i sicrhau bod y defaid yn cael y porthiant gorau.

Bydd porfa ar uchder o 10cm am fwy na 25 diwrnod yn lleihau'r elw wrth gynhyrchu ŵyn oherwydd y gall waethygu o ran ansawdd o gymaint â 70%.

“Mae'r gwerth maethol yn dirywio gydag oedran y ddeilen. I'r rhan fwyaf o laswelltau, mae deilen sy'n hŷn na 25 diwrnod yn dirywio yn gyflym o ran treuliadwyedd, ac mae gan borfeydd yr haf fwy o goesynnau sy'n lleihau'r treuliadwyedd ymhellach eto,” dywedodd Mr Rohloff.

Deunydd marw sy'n gyfrifol am 70% o'r amrywiad yn ansawdd porfa ac, am ei fod yn arafu symudiad bwyd trwy'r rwmenn, gall gyfyngu llawer ar dyfiant ŵyn.

“Yn ychydig wythnosau cyntaf eu hoes, bydd ŵyn yn tyfu ar raddfa 350g/dydd pan fydd yr ansawdd yn dda, ond ar ffermydd lle nad yw tyfiant y glaswellt yn cael ei reoli'n dda, bydd y cynnydd wedi gostwng i 100g/dydd wrth ddiddynfu, hyd yn oed 50g ar ôl diddynfu,” dywedodd Mr Rohloff.

“Bydd ffermwyr yn rhoi'r bai ar straen ar ôl diddynfu, ond mae'n fwy tebygol o fod o ganlyniad i borfa goesog oherwydd diffyg digon o bwysedd pori.”

Mae pwysedd pori yn atal deunydd marw rhag cynyddu ac yn annog codlys i dyfu.

Mae glaswelltau sy'n blodeuo'n hwyr a rhygwellt llawn siwgr yn cynnig tymor hwy o dreuliadwyedd, argymhellodd Mr Rohloff.

Mae'n argymhell pori cylchdro oherwydd ei fod yn gadael i fferm dyfu 30% yn fwy o laswellt mewn cymhariaeth â stocio set.



“Mae hynny yr un fath â chael traean yn fwy o'ch erwau am ddim,” nododd.

“Nid wyf yn dweud y dylai pawb ffermio fel y Kiwis, ond dylech wybod faint o gynnwys sych yr ydych yn ei dyfu ac yn ei ddefnyddio. Os byddwch chi yn rheoli eich porfa, gallwch reoli ei ansawdd a'i swmp ar unrhyw adeg.

“Peidiwch â meddwl am brisiau ŵyn - meddyliwch faint o elw yr ydych yn ei gael o'ch glaswellt.”

Trwy gyplysu pori cylchdro â chyllidebu porthiant, gall ffermwyr fod yn rhagweithiol yn hytrach na bod yn adweithiol o ran amrywiadau tymhorol.

Mesurwch y borfa yn gywir rhwng tymhorau - mae 5cm yn cyfateb i tua 1500kg DM/ha mewn porfa yn y gaeaf a'r hydref; ond gall hyd at 25% fod yn goesynnau neu ddeunydd marw.

Dywedodd Swyddog Technegol Cig Coch Cyswllt Ffermio De Ddwyrain Cymru, Elan Davies, y dylai gwelliannau o ran effeithlonrwydd a newidiadau posibl i systemau cynhyrchu fod yn flaenoriaeth i'r diwydiant defaid wrth symud ymlaen.



Parasitiaid mewnol yw un o'r afiechydon mwyaf cyffredin a phwysicaf y mae'n rhaid i ffermwyr da byw ymdrin â nhw yn ddyddiol. Bydd y Prosiect Rheoli Parasitiaid yn monitro'r baich o barasitiaid ar 10 safle ffocws ar draws Cymru a byddant yn rhoi adroddiad am y canfyddiadau yn gyson trwy wefan Cyswllt Ffermio a sianeli cyfryngau cymdeithasol. Bydd y prosiect yn canolbwyntio ar y parasitiaid gastro-fewnol (llyngyr) a sut y gall cyfrif wyau ysgarthol cyson gael ei ddefnyddio i fonitro'r baich o lyngyr mewn defaid a gwartheg. Yn ogystal â rhoi adroddiad am y baich a geir trwy'r tymor, bydd y prosiect hefyd yn dangos sut y gall newidiadau i reoli llyngyr fel yr amseriad a'r dewis o driniaeth wella perfformiad ac iechyd y stoc.

Y SIALENSIAU

- Mae parasitiaid yn cyfyngu yn sylweddol ar gynhyrchiant/proffidioldeb anifeiliaid
- Mae parasitiaid yn gostwng imiwnedd ac yn effeithio ar iechyd cyffredinol yr anifail
- Diffyg sylweddoli bod y gwrthedd i driniaethau llyngyr yn cynyddu (methiant triniaethau)
- Pwysau i leihau'r defnydd o driniaethau meddygol cyffredinol mewn anifeiliaid sy'n cynhyrchu bwyd

GWEITHREDU NEWIDIADAU AR Y FFERM

Er gwaethaf llwyddiant yn codi ymwybyddiaeth o ran gwrthedd i driniaeth llyngyr, gwelwyd diffyg o ran newidiadau gwirioneddol ac eang i arferion ar ffermydd. Bydd y prosiect yn gweld a yw'n bosibl newid y duedd hon trwy:

- Weithredu monitro cyson ar y baich o lyngyr trwy gyfrif wyau ysgarthol gan ddefnyddio'r llwyfan FECPAK⁶². Yn ogystal â chaniatáu canlyniadau cyflym ar y fferm, mae'r llwyfan yn casglu'r data a gall ei rannu yn fyw rhwng y ffermwyr, eu milfeddyg a'u cynghorwyr.
- Gweithredu'r cyngor a'r argymhellion diweddaraf gan gynlluniau SCOPS (www.scops.org.uk) a COWS (www.cattleparasites.org.uk).
- Profi am wrthedd/effeithiolrwydd anthelmintig a galluogi ffermwyr i reoli sefyllfaoedd lle mae gwrthedd niferus yn bresennol.
- Gwellu perfformiad stoc trwy reoli'r baich parasitiaid a gwrthedd yn well.
- Arafu datblygiad gwrthedd i driniaethau llyngyr eraill – yn arbennig y triniaethau 4ydd a 5ed genhedlaeth newydd.

BETH SYDD WEDI CAEL EI DDARGANFOD HYD YN HYN?

Ar ddechrau'r prosiect ym Mawrth 2019, dechreuodd y ffermydd defaid oedd yn rhan o'r prosiect ymchwilio i'r baich mewn mamogiaid tua'r amser ŵyna. Mae'r rhan fwyaf o ffermwyr yn meddwl nad yw cyfrif wyau ysgarthol yn ddefnyddiol heblaw ar gyfer ŵyn yn ystod yr haf, ond trwy fonitro gwelwyd bod amrywiaeth mawr rhwng y ffermydd a gymerai ran gan achosi newid yn eu strategaeth drin llyngyr i famogiaid:

- Llwyddodd James Powell, Dolygarn, i osgoi rhoi triniaeth gyffredinol i'r holl famogiaid a dim ond rhoi triniaeth i'r grwpiau rheoli oedd yn dangos baich trwm.
- Roedd y cyfrif yn isel iawn ym mhob grŵp gan Irwel Jones, Aberbranddu cyn ŵyna ac ar ôl hynny a gallodd gadw'r gwn dosio er nad oedd unrhyw famogiaid wedi cael triniaeth llyngyr ers yr Ebrill blaenorol.
- Mewn cyferbyniad, roedd canlyniadau'r cyfrif wyau cyffredinol yn uwch i Nicola Drew, Fferm y Coleg a David Lewis, Haughton Hall, a rhoddwyd triniaeth i'r rhan fwyaf o'r mamogiaid wrth eu troi allan o'r sied ŵyna.
- Mae'r gwiriadau ar ôl rhoi triniaeth llyngyr i'r mamogiaid gan David Lewis wedi codi pryderon ac amheuaeth am ddiffyg effeithiolrwydd y driniaeth Moxidectin sy'n gweithredu am hir. Bydd hyn yn cael ei wirio eto yn yr haf fel rhan o'r profi gwrthedd/effeithiolrwydd.



Eurion Thomas o Techion yn trafod casglu samplau gwartheg gyda Gareth Thomas, Tregynrig.

Dechreuwyd profi ŵyn ym mis Mai i'r rhan fwyaf o ddiadelloedd. Er mai nematodirus yw'r rhywogaeth gyntaf o lyngyr sy'n berthnasol i ŵyn, dangosodd cyfrif wyau ysgarthol bod y rhywogaeth strongyle o lyngyr eisoes yn bresennol erbyn i'r ŵyn gael eu dos gyntaf ar lawer o ffermydd. Roedd y rhai oedd yn gwybod bod ganddynt wrthedd i ddos gwyn yn y llyngyr strongyle yn gallu defnyddio grŵp gwahanol o driniaeth yn hytrach na'r dos gwyn y byddent yn ei ddefnyddio fel arfer i drin nematodirus.

Dechreuodd y tri safle sy'n canolbwyntio ar wartheg fonitro stoc ifanc bedair i bum wythnos ar ôl eu troi allan i laswellt y gwanwyn a byddant yn parhau i wneud hynny yn gyson trwy gydol yr haf.

Fferm laeth yn anelu at ddiogelu buches rhag *M.bovis* gyda brechiad wedi ei wneud i'r diben

Mae brechiad wedi ei wneud i'r diben ar y cyd â newidiadau i reoli buches yn helpu fferm laeth yn Sir Gaerfyrddin i ddiogelu lloeau rhag afiechyd oedd yn gyfrifol am farwolaethau nifer fawr o'i heffrod cyfnwid.

Ers 2015, roedd David ac Eirian Thomas wedi profi lefel uchel o farwolaethau ymhlith lloeau ar Fferm y Wern, Safle Ffocws Cyswllt Ffermio ger Bancyfelin.

Trwy weithio gyda'u milfeddyg lleol, yn y pen draw llwyddwyd i gysylltu'r marwolaethau â *Mycoplasma bovis* (*M. bovis*), bacteriwm heintus iawn sy'n cyfrannu yn sylweddol at niwmonia mewn lloeau ac sy'n cael ei gysylltu â meningitis, heintiadau'r llygaid a'r glust yn ogystal ag arthritis, mastitis, erthylyu ac anffrwythlondeb mewn buchod wedi tyfu.

Nid oes gan *M. bovis* gellfuriau felly nid yw'n ymateb i lawer o wrthfotigau, ond fe wnaeth brechiad hunangenledig a roddir i fuchod sych ac yna i'w lloeau gynnig cyfle i'r teulu Thomas amddiffyn eu buches rhag yr afiechyd trychinebus hwn.

Fe wnaethant drefnu cynllun treialu Cyswllt Ffermio oedd yn golygu creu brechiad a'i roi i'r fuches.

Er mwyn creu brechiad, cymerwyd swab o drwyn llo neu yn uniongyrchol o feinwe ysgyfaint anifeiliaid marw. Mae'r brechiad yn benodol i'r fferm a dim ond ar y fferm honno y bydd yn effeithiol.

Rhoddwyd brechiad i'r buchod chwe wythnos a thair wythnos cyn lloea iddynt drosglwyddo'r imiwnedd i'w lloeau. Rhoddwyd brechiad i'r lloeau yn bythefnos a phedair wythnos oed.

Roedd marwolaethau lloeau o'u geni hyd eu diddyfnu yn lonawr wedi bod yn 63%, ond fe wnaeth y buchod cyntaf a gafodd y brechiad loea ar 10 Chwefror a gostyngodd y marwolaethau yn Chwefror i 32% gyda'r rhan fwyaf o'r rheini yn cael eu hachosi gan y sgôth.

Dywedodd Mr Staak: "Mae'n gynnwys eto, a dwi ddim am i ffermwyr feddwl bod brechu yn ateb i bob problem o ran *M. bovis*, ond mae'n ymddangos ei fod yn gweithio."

Mae'n cynghori na ddylid defnyddio brechu ar ei ben ei hun – mae rheoli'r fuches hefyd yn chwarae rôl allweddol wrth ddiogelu buchod a lloeau rhag *M. bovis*.

Cefnogodd Cyswllt Ffermio y cynllun treialu oherwydd y lefel gynyddol o heintiadau *M. bovis* ym muchesi Cymru a'r angen i ddeall rhagor am yr afiechyd.



Hyfywedd semen â'i ryw wedi ei bennu yn y fuches sy'n lloea mewn bloc yn y gwanwyn

Cyfyngedig neu brin iawn fu'r defnydd o semen â'i ryw wedi ei bennu ar fuchesi sy'n lloea mewn bloc yn y gwanwyn ar laswellt ers iddo gael ei lansio yn 1995. Mae hyn yn rhannol oherwydd y pwyslais ar sicrhau'r cyfnod gorau hyd gyfloi ynghyd â'r dyddiau mewn llaeth a llwyddo i gael cyfnod lloea tynn o rhwng 6-9 wythnos sydd yn hanfodol ar gyfer system bori gylchdro lwyddiannus.

Felly, mae amgyffrediad cyffredin o gyfraddau cyfloi is wedi golygu mai cymharol ychydig sydd wedi ei ddefnyddio ar raddfa fasnachol fawr lle mae ffrwythlondeb yn brif ddangosydd perfformiad allweddol.

Mae llawer o resymau pam y dylid defnyddio semen â'i ryw wedi ei bennu. Mae llawer o unedau godro sy'n gweithredu systemau gwahanol wedi defnyddio semen â'i ryw wedi ei bennu yn llwyddiannus ac yn dal i wneud. Mae rhai o'r manteision yn cynnwys:

- Gwelliant genetig wedi ei dargedu gan y buchod a'r heffrod gorau
- Mwy o loeau benyw gan anifeiliaid gyda geneteg well
- Lloea haws er mwyn gwella ffrwythlondeb o hynny ymlaen
- Gwella materion fel argraff y cyhoedd a lles anifeiliaid o ran lloeau gwryw croesiad Jersey
- Y dewis i ddefnyddio mwy o semen biff ar anifeiliaid â geneteg waelach a chynyddu'r gwerthiant lloeau

Er bod ei fanteision yn niferus, gall y broses o ddidol niweidio celloedd y sberm, ac mae cyfanswm y celloedd wedi eu didol yn amlwg yn llai nag mewn gwelltyn o semen confensiynol. Bydd rhewi a thoddi hefyd yn cael effaith fechan ar ei hyfywedd fel y byddai ar semen confensiynol. Yn ystod blynyddoedd cynnar ei ryddhau yn hwyr yn yr 1990au, awgrymwyd mai dim ond ar heffrod y dylid defnyddio semen â'i ryw wedi ei bennu. Ond mae datblygiadau yn y cam didol a thrin wedi gwella'n ddramatig, ac mae llawer o fuchesi yn awr yn defnyddio semen â'i ryw wedi ei bennu ar fuchod hŷn, ar yr amod nad oes unrhyw broblemau amlwg yn yr wterws na phroblemau metabolaidd.

Yn ystod cyfnod magu eleni, cydamserwyd 80 o heffrod Cefnamwlch a gynigiwyd ar gyfer y prosiect i gael tarw potel mewn dau grŵp ar yr un diwrnod; 40 yn cael tarw Jersey \$ Gwerth Bridio uchel (\$BW) a'r 40 arall yn cael yr un tarw ond â'r semen â'i ryw wedi ei bennu.

Dyrannwyd y semen ar hap er mwyn dosbarthu'r math o semen yn deg, ac aed ati i doddi'r gwelltyn yn ôl y protocolau arfer gorau safonol. Yna trowyd tarw stabiliser y mae ei epil yn lloea'n hawdd at y grŵp yr wythnos ganlynol.



Bells CM Conrad - Y tarw Jersey Seland Newydd a ddefnyddiwyd ar draws yr heffrod ar gyfer y prosiect.

Bydd canlyniadau'r treial hwn ar gael ar ôl sganio ym mis Gorffennaf i gofnodi faint wnaeth gymryd tarw y tro cyntaf. Am ragor o wybodaeth, ewch i wefan Cyswllt Ffermio.

Ffermwyr Ilaeth Cymru yn cael eu hannog i ddiogelu iechyd y traed trwy ganfod cloffni yn gynnar

Gall trin arwyddion cloffni mewn buwch fel argyfwng trwy drin y broblem yn gyflym atal niwed anadferadwy i'r droed, mae arbenigwyr mewn cloffni gwartheg yn cynghori. Mae cloffni yn afiechyd drud ym muchesi Ilaeth Cymru, ond gall llawer o'r hyn sy'n ei achosi gael ei atal, yn ôl milfeddygon oedd yn rhoi cyngor arbenigol ar gwrs Meistr ar Gloffni Cyswllt Ffermio.

Dyweddodd yr ymgynghorwyr milfeddygol annibynnol Dr Nick Bell a Sara Pedersen bod yn rhaid i ffermwyr fod yn barod i ymateb yn gyflym i'r fuwch gloff.

“Beth sy'n bwysig wrth wirio traed yw peidio â thrimio gormod. Yn gyffredinol, rydym yn dilyn y dull pum cam,” dywedodd Dr Bell.

1. Cywirwch hyd y carn – dechreuwch gyda'r carn ôl mewnol neu'r carn blaen allanol a mesur yr hyd priodol o'r man lle mae'r carn yn mynd yn galed; trimiwch y gwadn sydd dros ben oddi ar y carn er mwyn gwneud ongl y droed yn fwy serth a gwrthio'r fuwch ymlaen ar flaen ei throed. Arbedwch y sawdl a'r waliau ochrol.
2. Cyfatebwch y carn arall o ran hyd a chydbywysedd - gan eto, arbed y sawdl a'r waliau ochrol.
3. Crafwch safle'r briw ar y gwadn - yn ddwfn a llydan. Crëwch le i slyri glirio rhwng y carnau.
4. Er mwyn trimio o ran briwiau sy'n achosi cloffni, crëwch wahaniaeth yn uchder y sawdl rhwng y carn iach a'r carn poenus; rhowch floc a/neu drimio'r sawdl ar ddau draean cefn carn ôl ar y tu allan os oes afiechyd arno.
5. Gwaredwch unrhyw garn rhydd ac ymylon miniog – rhaid bod yn ofalus wrth dynnu garn rhydd o gwmpas briw ar y gwadn, llinell wen neu friwiau necrotig. Gwaredwch agennau erydiad y sawdl.

“Fel arfer mae'r niwed i'r droed yn anadferadwy, gan effeithio ar yr asgwrn a'r meinwe meddal, gan wneud cloffni yn argyfwng,” dywedodd Dr Bell.

Os bydd buchod yn cael eu trin pan fyddant wedi cleisio, gall y rhan fwyaf o'r briwiau gael eu hatal.

“Os gallwn ni drin buchod sydd â briwiau dermatitis newydd yn llwyddiannus gallwn atal iddo wasgaru ymhellach a lleihau'r heintiad,” esboniodd Dr Bell.

Gall siâp y droed gael ei gywiro i atal rhai briwiau, a thrwy wirio traed yn gyson gellir gwneud hyn yn y cyfnod cynnar.

Bydd triniaeth a thrimio prydlon yn helpu i liniaru cloffni ond dylech osod dileu ffactorau risg fel eich nod.


Dyweddodd Ms Pedersen mai cyfnodau godro hir yw un o brif achosion briwiau ar y gwadnau. Am bob cyfran o amser y mae godro yn mynd tu hwnt i ddwy awr, bydd yn cael effaith ar amseroedd gorwedd, rhybuddiodd Ms Pedersen. Cyfeiriodd at enghraifft o un ffermwr oedd â chyfleusterau rhagorol ond roedd yn cymryd pum awr i odro bob tro. “Er bod y fferm wedi buddsoddi yn anferth i wneud y gwartheg yn gyfforddus, roedd problem fawr gyda briwiau ar y gwadnau oherwydd nad oedd digon o amser i'r buchod ei dreulio yn gorwedd.”

Mae straen gwres hefyd yn ysgogi cloffni-roedd yn broblem gyffredin ymhlith buchesi godro yn ystod tywydd poeth yr haf diwethaf, felly dylid cymryd camau i gadw buchod yn oer os yw'r tywydd poeth yn cael ei ailadrodd eleni; mae hyn yn cynnwys peidio â chadw gwartheg yn sefyll am gyfnodau hir ac mewn criwiau mawr mewn iardiau wrth odro.

Ni ddylid diystyru dyluniad y ciwbyclau chwaith; yn aml gellir gwneud gwelliannau heb fuddsoddiad sylweddol, awgrymodd Ms Pedersen. “Nid oes llawer o siediau ciwbyclau ar ffermydd lle na ellir gwneud addasiadau; mwyaf cyfforddus yw'r ciwbyclau - hiraf yn y byd fydd yr amseroedd gorwedd.”

Dyweddodd Josh James, sy'n cynhyrchu Ilaeth o 200 o wartheg Holstein yn Redwick, nad oedd cloffni yn broblem fawr yn ei fuches, ond ychwanegodd:

“Hyd nes y byddwch wedi cyflawni dim cloffni, mae pethau y gallwch eu gwneud i wella, ac i helpu i gyrraedd y pwynt hwnnw, byddaf yn defnyddio peth o'r cyngor rhagorol yr ydym wedi ei gael ar y cwrs hwn.”



Adeiladu at y dyfodol gyda'n gilydd

Becky Jones

Ymgynghorydd Amgylcheddol

Wrth gynllunio ar gyfer y dyfodol, mae angen i fusnes fferm edrych ar ei adeiladau, storfeydd, tanciau a lagwnau presennol a phenderfynu a ydynt mewn cyflwr digon da i wneud y gwaith. Mewn sawl enghraifft, gall gwaith cynnal a chadw arferol ymestyn eu hoes ac osgoi cost ddiangen adeiladu storfeydd ac adeiladau newydd. Ond, o ystyried cyflwr yr adeilad, storfa, lagwn neu danc, mae'n bwysig cydnabod yr arwyddion cynnar o ddirywiad a methiant strwythurol. A yw'n cydfynd â'r rheoliadau fferm (Rheoliad Silwair, Slyri a Thanwydd Olew - y cyfeirir ato fel rheoliadau SSAFO)? Beth ellir ei wneud i ymestyn oes y strwythur a phryd mae angen ei gyfnewid? Os bydd strwythur yn cael ei gyfnewid, beth ddylai gymryd ei le a sut?

Trwy weithio gyda llawer o ffermwyr ar draws Cymru trwy gymorthfeydd seilwaith Cyswllt Ffermio, fe welwyd bod dros 90% o'r ffermydd sy'n chwilio am ffyrdd i reoli eu slyri, â phroblem gyda dŵr glaw wedi ei lygru ac nid problem storio slyri. Mae cadw dŵr allan o'r system reoli slyri, trwy reoli llygru ar law, dŵr wyneb a dŵr daear, yn ffordd gost effeithiol o gynyddu oes storfeydd, lagwnau, clampiau silwair a thanciau.

Trwy wybod beth yw'r glawiad misol ar gyfer eich fferm a'r ardal iard fudr, gallwch amcangyfrif cyfaint y dŵr glaw fydd yn cymysgu gyda'r slyri ar yr iard allanol agored mewn mis. Bydd hyn yn cael effaith sylweddol ar y storfeydd y bydd arnoch eu hangen sydd ar gyfer cyfnod o bedwar mis i sicrhau eich bod yn cydymffurfio â SSAFO neu gyfnod o bum mis i ffermwyr mewn Parth Perygl Nitradau (NVZ).

Gall mesur faint o ddŵr glaw sy'n cael ei lygru â slyri a throsi'r cyfaint hwn yn llwythi tanceri amlygu beth mae casglu dŵr glaw yn ei gostio i'ch busnes fferm; costau yn gysylltiedig â llafur, tanwydd, traul ar beiriannau, amser a chostau contractwr.

Dosberthir dŵr glaw wedi ei lygru fel slyri a rhaid ei gasglu a'i gynnwys mewn system storio slyri yn unol â rheoliadau SSAFO. Yn aml mae lleihau faint o ddŵr glaw sy'n cael ei lygru yn cael ei ddiystyru gan mai'r brif flaenoriaeth i lawer o ffermwyr yw darparu storfa slyri fwy. Ond trwy wneud newidiadau bychain, rhad, trwy ddargyfeirio dŵr glaw o'r iard fudr gellir cael gostyngiad mawr yn y swmp o slyri a gynhyrchir a'r storfeydd sy'n angenrheidiol. Bydd dargyfeirio dŵr glân cyn iddo gael ei lygru â slyri a pheidio â chael stoc ar iardiau agored tu allan yn lleihau'r dŵr budr sy'n cael ei gynhyrchu.

Pan fydd yr holl ddewisiadau o ran lleihau'r dŵr glaw sy'n mynd i'r system wedi cael eu hystyried a'u dilyn, yna gellir gwneud cyfrifiadau i sefydlu'r storfeydd priodol sy'n ofynnol ar gyfer y system ffermio. Hefyd, mae'n bwysig cofio gadael lle gwag-750mm i lagwn ochrau pridd a 300mm i storfeydd slyri eraill, â'r glaw sy'n disgyn ar y storfa. Mae'r rheoliadau yn gofyn am le i storio am bedwar mis i sicrhau eich bod yn cydymffurfio â SSAFO neu bum mis i Barthau Perygl Nitradau. Mae slyri yn ffynhonnell nitradau werthfawr iawn, ac mae'r symiau mwyaf o faetholion yn cael eu cadw yn y rhan solid o'r tail. Bydd cadw dŵr glaw allan o'r slyri yn cynyddu'r lle sydd gennych i storio slyri ac yn eich galluogi i chwalu'r slyri yn y tywydd gorau a phan fydd yr amodau i dyfu cnydau ar eu gorau. Bydd hefyd yn osgoi'r angen i roi slyri dyfrllyd ar dir yn ystod tywydd gwael pan fydd perygl y bydd yn rhedeg oddi ar y tir, gan achosi llygredd mewn nentydd ac afonydd.

Llongyfarchiadau!

Cyhoeddi aelodau Academi Amaeth 2019

Mae Cyswllt Ffermio wedi cyhoeddi enwau'r 36 ymgeisydd llwyddiannus a ddewiswyd i gymryd rhan yn ei raglen ddatblygu personol glodfawr, yr Academi Amaeth.


Mae'r niferoedd wedi cynyddu'n sylweddol ers lansio'r rhaglen yn 2012.

"I nifer o'r cyn-aelodau, mae'r rhaglen ddwys o fentora, hyfforddiant a theithiau astudio dros dri chyfnod byr o astudio, wedi eu cynorthwyo i gyflawni eu nodau personol a chreu cyfleoedd busnes newydd.

"Mae nifer o rai eraill, a oedd eisoes wedi cyflawni eu nodau gyrfa cyn ymuno â'r Academi, yn cydnabod bod y profiad wedi rhoi cyfle i ddatblygu ymhellach a chyflawni eu huchelgeisiau personol eu hunain," meddai Einir Davies, Rheolwr Datblygu a Mentora Cyswllt Ffermio.

Mae'r Academi Amaeth yn cynnwys tair rhaglen benodol. Mae'r Academi eleni yn cynnwys 12 ymgeisydd ar y rhaglen Busnes ac Arloesedd; 12 ar y rhaglen Arweinyddiaeth Wledig, sy'n fenter ar y cyd gyda Chymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru a 12 ar raglen yr Ifanc, sy'n fenter ar y cyd gyda CFFI Cymru.

Bydd pob un o'r rhaglenni'n cynnwys taith astudio, gydag ymgeiswyr y rhaglen Arweinyddiaeth Wledig eleni yn ymweld â phencadlys Sefydliad Masnach y Byd yn Geneva; bydd ymgeiswyr y rhaglen Busnes ac Arloesedd yn ymweld â'r Iseldiroedd i gwrdd â rhai o bobl fusnes fwyaf arloesol y wlad; a bydd rhaglen yr Ifanc yn cymharu gwahanol systemau ffermio yng Ngwlad yr Iâ yn ystod hanner tymor yr hydref.



Rhys Beynon-Thomas, Rhaglen Arweinyddiaeth Wledig

Mae'r milfeddyg fferm a'r ffermwr rhan amser, Rhys Beynon-Thomas o Bontarddulais wedi rhoi ei fryd ar weithio gyda da byw ar fferm ers pan oedd yn ifanc iawn. Mae Rhys, sy'n gweithio i bractis milfeddygol yn Sir Gâr, yn ffyddiog y bydd yr hinsawdd wleidyddol ansicr sydd ohoni hefyd yn arwain at gyfleoedd newydd.

"Hoffwn roi rhywbeth yn ôl i'r diwydiant, a gobeithiaf y bydd bod yn rhan yn yr Academi Amaeth yn rhoi'r hyder i mi fod yn llysgennad ar gyfer y materion a fydd, yn fy marn i, yn sicrhau bod ffermio yng Nghymru yn parhau i wneud ei farc mewn marchnad gystadleuol."



Heledd Mair Jones, Rhaglen Busnes ac Arloesedd

Mae Heledd Mair Jones a'i phartner yn ffermwyr tenant ger Machynlleth. Mae Heledd wedi graddio o Brifysgol Aberystwyth ac mae'n cyfuno ei hastudiaethau MSc mewn Gwyddorau Anifeiliaid gyda'i swydd bresennol yn gweithio i un o brif gyflenwyr amaethyddol Cymru. Cafodd ei swydd gyntaf ar ôl graddio gydag Innovis. Defaid, a geneteg yn benodol yw ei diddordeb.

"Credaf y bydd yr Academi Amaeth yn agor y drws i nifer o syniadau, ac rwy'n edrych ymlaen at dderbyn cyngor a chefnogaeth ddefnyddiol gan arbenigwyr a phobl fusnes yn ogystal â phobl uchelgeisiol sydd mewn sefyllfa debyg i ni, sydd eisieu dechrau eu busnes fferm gynaliadwy a phroffidiol eu hunain."



Ifan Prys Thomas, Rhaglen yr Ifanc

Mae'r ffermwr ifanc, Ifan Thomas, yn fyfyrwr amaeth yng Ngholeg Llysfas i ac yn byw gartref ar fferm y fferm ddefaid a biff teuluol ym Mhontrug, Caernarfon. Mae'n aelod brwd o Glwb Ffermwyr Ifanc Dyffryn Nantlle ac mae'n cymryd rhan mewn mentrau cymunedol gan gynnwys treialon cŵn defaid blynyddol.

"Rwy'n gobeithio y bydd fy mhrofiad fel rhan o Raglen yr Ifanc yn Academi Amaeth yn rhoi'r cyfle i mi gwrdd â ffermwyr ifanc eraill sy'n rhannu'r un meddylfryd ac yn dymuno ennill bywoliaeth dda o'r diwydiant amaeth. Rwy'n gobeithio y gallaf adeiladu ar y profiad yma a chael budd o'r rhwydweithio a'r mentora."



Am ragor o fanylion ynglŷn ag ymgeiswyr yr Academi Amaeth eleni, ewch i: www.llyw.cymru/cyswlltffermio



EIPWALES

Cydweithio er ffyniant gwledig
Collaborating for rural success

Prosiect cyntaf EIP Wales yn croesi'r llinell derfyn

Ddwy flynedd yn ddiweddarach ac mae'r prosiect cyntaf erioed i gael cyllid EIP Wales yn ôl yn 2017, y prosiect Clwy Tatws, yn awr yn dirwyn i ben. Roedd nodau'r prosiect yn ddeublyg:

1. Treialu effeithiolrwydd bio-blaladdwr newydd sensitif i'r amgylchedd i reoli clwy tatws hwyr. Roedd y prosiect yn ymchwilio i effeithiolrwydd y cynnyrch Hederin, saponin wedi ei echdynnu o lorwg cyffredin a ddatblygwyd gan Naturiol Bangor Ltd.
2. Treialu'r defnydd o OptiYield Diamond (OptD), bioysgogwr newydd yn seiliedig ar ffosffonad, a ddatblygwyd gan Emerald Crop Science, a allai helpu planhigion i dyfu'n fwy egniol a chynyddu eu gwrthedd i blâu ac afiechydon a chynyddu'r cynnyrch.



Canolfan Ymchwil Henfaes, Prifysgol Bangor. Gellir gweld y plot treialu Clwy Tatws ar y chwith isaf.

Crynodeb o'r prosiect:

Cynhaliwyd treialon ar ddau safle yn 2017 a 2018:

- Tyn yr Helyg, fferm organig ger Aberystwyth
- Fferm Henfaes, ger Bangor

Ailadroddwyd y plotiau trin a rheoli a chasglwyd y data yn y maes gan Sarpo Potatoes Ltd yn Henfaes a gan David Frost yn Tyn yr Helyg. Rhoddwyd triniaethau i'r plotiau yn wythnosol ychydig cyn y cyfnod ac yn ystod y cyfnod pan wnaeth clwy tatws hwyr ymosod ar y cnwd. Aseswyd effeithiolrwydd y cynhyrchion a dreialwyd trwy fesur datblygiad y clwy tatws, y cynnyrch, ac iechyd y cloron ym mhob plot ar ôl cynaeafu.

Ar grynhoad o 0.2% a 0.3%, roedd Hederin yn gallu arafu, ond nid atal, datblygiad y clwy tatws. Ond, roedd yn llai effeithiol na'r triniaethau ffwngleiddiaid safonol ('Cuprokyt' sy'n cynnwys copr yn Tyn yr Helyg a Mancozeb/Shirlan/Ranman neu Mancozeb ar ei ben ei hun yn Henfaes).

Ar hyn o bryd, felly, nid yw Hederin yn cael ei weld fel rhywbeth i ddisodli ffwngleiddiaid synthetig, ond gallai fod â rôl i'w chwarae mewn rhaglenni rheoli afiechydon integredig, er enghraifft, ar y cyd gyda mathau o datws sydd â gwrthedd neu pan gaiff ei gymysgu â chynnyrch arall sy'n lladd ffwng.

Ar y llaw arall, Opt D, a brofwyd yn flynyddol ar safle Henfaes, oedd y driniaeth fwyaf effeithiol yn gyson. Roedd yn perfformio yn well na'r ffwngleiddiad safonol a Hederin, o ran rheoli ymlediad yr afiechyd ar ddail a rheoli clwy'r cloron ac arweiniodd at y cynnyrch gorau i'w farchnata. Pan gymysgwyd ef â Hederin yn nhreialon 2017, roedd rhywfaint o dystiolaeth bod cymysgedd o gynnyrch yn rheoli'r clwy yn well na'r un cynnyrch ar ei ben ei hun. Ond bydd angen ymchwilio ymhellach i hyn.

Dywedodd Tony Little o ADAS, y Brocer Arloesedd ar gyfer y prosiect: "Roedd hwn yn brosiect diddorol iawn. Roedd y broses o ddwyn tyfwr, ymchwilwyr a busnesau at ei gilydd i ddatrys problemau pwysig gyda thechnolegau cynaliadwy yn un a roddodd foddhad mawr."

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma:

www.llyw.cymru/cyswlltffermio



Ffarmwraig ddefaid o Geredigion yn benderfynol o fod y gorau y gall hi fod

Nid yw gyrfa fancio ar y stryd fawr a helpu gyda busnes eich gŵr yn Swydd Hertford o angenrheidrwydd yn eich paratoi ar gyfer bywyd fel ffermwr defaid yng nghefn gwlad Ceredigion! Felly, pan wnaeth Helen Hall a'i gŵr benderfynu ymddeol i dyddyn 45 erw (18.2 hectar) ger Rhyd Lewis yn 2016, roedd yn gwybod bod ganddi waith dysgu o'i blaen.

Heddiw, diolch i gyngor, cyfarwyddyd a hyfforddiant gan Cyswllt Ffermio, ynghyd â help gan gymdogion cefnogol, mae Helen yn ffarmwraig ddefaid gyda diadell o tua 70 o famogiaid ac ŵyn yn cynnwys Poll Dorset, Balwen, Torwen, croesiadau Suffolk a Llanwenog lleol.

“Bu'r hyfforddiant yr wyf wedi ei gael trwy Cyswllt Ffermio yn allweddol i fy nealltwriaeth o'r busnes.

“Rwy'n gwybod pa swyddi y gallaf eu gwneud fy hun yn hyderus a sut i gadw at safonau uchel o ran iechyd a lles anifeiliaid. Yr hyn sy'n bwysig yw fy mod yn gwybod pryd mae angen i mi alw ar filfeddyg neu rywun mwy profiadol.”

Wrth drochi ei hun mewn ffermio o ddydd i ddydd wrth i'r ddiadell dyfu yn araf, ochr yn ochr â mynychu'r gweithdai a digwyddiadau agored Cyswllt Ffermio perthnasol, gwelodd Helen fod y modylau e-ddysgu wedi eu cyllido yn llawn y mae yn eu dilyn ar ei gliniadur, wedi rhoi cyfoeth o wybodaeth iddi.

“Rwy'n defnyddio'r modylau e-ddysgu fel y byddech yn defnyddio darlithoedd coleg; rwy'n gwneud nodiadau wrth i mi fynd trwy bob sesiwn ryngweithiol fer a chwis, sydd fel arfer yn para am rhwng 20 a 30 munud ac yr wyf yn eu dilyn mewn darnau bychain os byddaf yn brysur.

“Os bydd arnaf angen atgoffa fy hun, dwi naill ai yn ailadrodd y modylau neu yn cyfeirio at fy nodiadau, cyn symud ymlaen i'r lefel nesaf neu ymuno â chwrs newydd,” dywed Helen.

Dywed swyddog datblygu Cyswllt Ffermio lleol Helen, Rhiannon Davies, ei bod wedi rhoi boddhad iddi weld sut y mae penderfyniad Helen i lwyddo fel ffarmwraig ddefaid wedi gyrru ei hawch am gael y wybodaeth a'r sgiliau newydd.

Mae gan Helen agwedd ragweithiol iawn ac mae wedi manteisio ar bopeth sydd gan Cyswllt Ffermio i'w gynnig.

Dilynodd Helen dros 25 o gyrsiau e-ddysgu hyd yn hyn, gan ei galluogi i ddysgu am bynciau gan gynnwys bioddiogelwch, anthelmintigau, rheoli llyngyr yr iau, y claf, cloffni a'r arfer gorau wrth ŵyna.

“Mae ei hagwedd o 'gael gwybod beth sydd arnoch angen ei wybod gyntaf' yn golygu mai yn anaml y mae'n wynebu sefyllfa ymarferol nad yw'n gwybod sut i ymdrin â hi, gan gynnwys ar adeg ŵyna.”

“Gall pob unigolyn sydd wedi cofrestru gyda Cyswllt Ffermio ddilyn cyrsiau e-ddysgu a gefnogwyd gan weithwyr proffesiynol yn y diwydiant, yn ymdrin â busnes, tir a da byw, a gyda mwy na 60 o fodylau ar gael ar hyn o bryd ar bynciau yn amrywio o sicrhau bod porchell yn goroesi i lygredd amaethyddol, mae hwn yn ddewis hygrych gyda manteision i bawb,” meddai Rhiannon.

Mae cyrsiau hyfforddi ymarferol a busnes wedi eu hachredu, gyda chymhorthdal o hyd at 80% ynghyd â modylau e-ddysgu wedi eu hariannu'n llawn, hyfforddiant iechyd a lles anifeiliaid a TG ar gael i'r holl fusnesau fferm a choedwigaeth sydd wedi cofrestru.

Mae stori lawn Helen ar gael ar wefan Cyswllt Ffermio.

1 Ewch i wefan Cyswllt Ffermio a dewis 'Sgiliau a Mentora'

2 Cliciwch ar 'e-ddysgu' a dewis y modiwl/modylau yr ydych am eu dilyn

3 Rhewch 20-30 munud ar gyfer pob cwrs rhyngweithiol neu dilynwch nhw mewn darnau byr

4 Gorffennwch y modiwl a'r cwis yn eich amser eich hun – gallwch ailymweld ar unrhyw amser

5 Rhewch y theori ar waith!



ARLOES AC ARALLGYFERIO CYMRU

26/09/2019

Fe'ch gwahoddir i ...

ychwanegu gwerth at eich busnes, buddsoddi yn eich dyfodol, paratoi i lwyddo

- **Cwrdd** â'r dyfeiswyr, y gwneuthurwyr a'r dosbarthwyr sydd ar flaen y gad o ran yr arloesedd a'r dechnoleg ddiweddaraf ar gyfer busnesau fferm a choedwigaeth
- **Dysgu** sut mae'r mentrau arallgyfeirio mwyaf llwyddiannus yn ffynnu mewn marchnad gystadleuol
- **Gwireddu** eich syniadau drwy fanteisio ar arweiniad, cefnogaeth, hyfforddiant a mentora Cyswllt Ffermio

10:00-16:00

Neuadd De Morgannwg, Maes y Sioe Frenhinol, Llanelwedd LD2 3SY
Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â: fcevents@menterabusnes.co.uk
Mynediad am ddim

Os ydych chi neu rywun sy'n agos atoch yn profi problemau iechyd meddwl:

- Tristwch parhaus neu deilmo'n isel
- Diffyg diddordeb neu bleser
- Blinder a diffyg egni
- Diffyg cwsg
- Diffyg canolbwytio
- Prinder hunan-hyder
- Dim llawer o awydd bwyd neu ormod ohono
- Meddyliau neu weithredoedd hunanddinistriol
- Aflonydd neu symud yn arafach
- Euogrwydd neu feio ei hun

PEIDIWCH Â DIODDEF YN DAWEL



Ffôn: 0800 587 4262
thedpjfoundation.com



Ffôn: 0800 121 4722
tirdewi.co.uk

FCN | THE FARMING
COMMUNITY
NETWORK

Ffôn: 03000 111 999
fcn.org.uk

R.A.B.I.
Cefnogi Teuluoedd Fferm
Supporting Farming Families

Ffôn: 0808 281 9490
rabi.org.uk



Llywodraeth Cymru
– Sioe Deithiol Ffermio Cynaliadwy
Welsh Government
– Sustainable Farming Roadshow

Sioe Deithiol Ffermio Cynaliadwy

- Darganfyddwch sut i wella perfformiad economaidd ac amgylcheddol eich busnes
 - Dechreuwch ar y broses o ymgeisio am y Grant Cynhyrchu Cynaliadwy
- Ymunwch â ni yn un o'r digwyddiadau hyn i gael mwy o wybodaeth ynglyn â'r nifer sylweddol o wasanaethau a chefnogaeth sydd ar gael i chi.

DYDDIAD	LLEOLIAD
03/09/2019	Canolfan Gynhadledd Pontypridd, Prifysgol De Cymru, Ffordd Llanwit, Trefforest CF37 1DL
04/09/2019	Gwesty Metropole Hotel, Llandrindod LD1 5DY
05/09/2019	Ysgol Uwchradd y Frenhines Elisabeth, Ffordd Llansteffan, Treloan, Caerfyrddin SA31 3NL
10/09/2019	Kinmel Manor, Ffordd St George, Abergele LL22 9AS
11/09/2019	Ysgol Gyfun Aberaeron, Ffordd y De, Aberaeron SA46 0DT
12/09/2019	Canolfan Addysg Uwchaled, Ffordd Yr Alwen, Cerrigydrudion, Corwen LL21 9SW

Mae archebu lle ymlaen llaw yn hanfodol ar gyfer y digwyddiadau hyn.
Bydd y drysau'n agor am 7yh ar gyfer arwyddo i mewn.
Bydd y digwyddiadau'n dod i ben am 9.30yh.

Er mwyn bod yn gymwys ar gyfer Grant Cynhyrchu Cynaliadwy (SPG) Llywodraeth Cymru, a all ddarparu grant rhwng £12,000 a £50,000, mae angen i bartner yn y busnes fynychu 'Digwyddiad Ffermio Cynaliadwy' a drefnir gan Cyswllt Ffermio. Mae'n rhaid i'r unigolyn sy'n mynychu fod wedi cofrestru gyda Cyswllt Ffermio a Thaliadau Gwledig Cymru Llywodraeth Cymru.

MAE'R FFENESTR YMGEISIO AR GYFER MEISTR AR FAETH - DEFAID AR AGOR!

14/08/19 - Marchnad Da Byw Y Trallwng, Y Trallwng SY21 8SR

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Lisa Roberts: 07399 849 148 / lisa.roberts@menterabusnes.co.uk

15/08/19 - Coleg Glynllifon, Caernarfon, Gwynedd LL54 5DU

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Gwion Parry: 07960 261 226 / gwion.parry@menterabusnes.co.uk

Bydd cyfnod ymgeisio yn cau am **12pm 29/07/19**.

Gallwch ymgeisio ar wefan Cyswllt Ffermio.



MEISTR AR FAETH
MASTER NUTRITION

Amserlen Digwyddiadau

Gweithdai lleihau llygredd amaethyddol a gwella ansawdd dŵr

30/07/2019 11:00 - 14:00	Fferm Lower Eyton, Eutun, Wrecsam LL13 0SN
05/08/2019 11:00 - 14:00	Rhosbadrig, Ty Croes LL63 5NQ
07/08/2019 10:30 - 13:30	Fferm Shordley Hall, Hope, Wrecsam, Sir Y Fflint LL12 9RT
07/08/2019 11:30 - 14:30	Hafod, Blaencillech, Castell Newydd Emlyn SA38 9EP
16/08/2019 10:30 - 13:30	Fferm Fron, Hendre, Yr Wyddgrug, Sir Y Fflint CH7 5QW
19/08/2019 10:30 - 13:30	Plas Llanfihangel, Capel Coch, Llangefni LL77 7UT
Canolfan Wasanaeth Cyswllt Ffermio - 08456 000 813	

Gweithdy BVD

18/07/2019 14:00 - 17:00	Canolfan Filfeddygol Caerfyrddin, Llanllwch, Caerfyrddin SA31 3SA	Canolfan Milfeddygol Sir Gaerfyrddin 01267 220 404
19/07/2019 11:00 - 14:00	Park Veterinary Centre, Caerdydd CF11 8DG	Milfeddygon Fferm De Cymru 01443 223751
29/08/2019 14:00-17:00	Pwll-y-Wrach, Y Bont-faen, Bro Morgannwg CF71 7NJ	Camlas Farm Vets LLP 01938 553124

Rheoli Parasitiaid Mewn Defaid - Gweithdy Llyngyr a Phryfed

18/07/2019 14:00 - 17:00	Milfeddygon Priory Aberteifi, Uned 11, Parc Teifi, Aberteifi SA43 1EW
Milfeddygon Priory Aberteifi - 01239 612 479	

Gweithdy Rheoli Staff

19/07/2019 10:00 - 15:00	Arwerthiant Ffermwyr Rhuthun, Sir Ddinbych LL15 1PB	Ffocws ar ffrwythlondeb y fuches a'r defnydd o Timothy ar dir pori mynydd
Eirir Williams - 07985 379 905 eirir.williams@menterabusnes.co.uk		31/07/2019 14:00 - 17:00
		Llwynybrain, Adfa, Y Drenewydd SY16 3DA Lisa Roberts - 07399 849 148 lisa.roberts@menterabusnes.co.uk

Gweithdy Deall Clefyd Johne

14/08/2019 14:00 - 17:00	Afon Vets Centre, Penydre, Castell Nedd Port Talbot SA11 3HH	Afon Vets Centre 01639 642739
22/08/2019 14:00 - 17:00	Canolfan Filfeddygol Caerfyrddin, Llanllwch, Caerfyrddin SA31 3SA	Canolfan Milfeddygol Sir Gaerfyrddin 01267 220 404

Systemau Tomwellt a Phlannu Uniongyrchol mewn Garddwriaeth Organig	
19/08/2019 17:00 - 19:30	Tyddyn Teg, Bethel, Caernarfon, Gwynedd LL55 3PS
Debbie Handley debbie.handley@menterabusnes.co.uk	

Gwella rheolaeth tir pori ac isadeiledd gwyrdd y fferm	
20/08/2019 11:00 - 15:00	Fedw Arian Uchaf, Rhyd Uchaf, Y Bala LL23 7SB
Dafydd Owen - 07985 379 903 dafydd.owen@menterabusnes.co.uk	

Teclyn rheoli allweddol - Sgorio cyflwr corff	
21/08/2019 11:00 - 14:30	Fferm Moor, Hwlfordd, Sir Benfro SA61 1LN
Abigail James - 07399 970 988 abigail.james@menterabusnes.co.uk	

Arallygyfeirio Ffermydd - Cynhyrchu Llysiau Cymysg	
26/08/2019 10:00 - 15:00	Tyddyn Teg, Bethel, Caernarfon, Gwynedd LL55 3PS
Debbie Handley debbie.handley@menterabusnes.co.uk	

Trawsnewid o system stocio sefydlog i system bori TechnoGrazing	
27/08/2019 14:00 - 16:00	Fferm Carreg Plas, Aberdaron, Pwllheli, Gwynedd LL53 8LH
Gwion Parry - 07960 261 226 gwion.parry@menterabusnes.co.uk	

Paratoi ar gyfer Hyrddda	
20/08/2019 19:00 - 21:00	Ynysau Uchaf, Pumsaint, Sir Gaerfyrddin SA19 8UW
Canolfan Wasanaeth Cyswllt Ffermio 08456 000 813	

Gweithdy Cyfryngau Cymdeithasol	
29/08/2019 16:00 - 18:00	Lantra, Maes y Sioe Frenhinol, Llanelwedd, Powys LD2 3WY
Canolfan Wasanaeth Cyswllt Ffermio 08456 000 813	

Diwrnod Agored Safle Arddangos Aberbranddu	
05/09/2019 14:00 - 17:00	Aberbranddu, Cwrt y Cadno, Pumsaint, Llanwrda SA19 8YE
Canolfan Wasanaeth Cyswllt Ffermio 08456 000 813	

Ffermio'r amgylchedd	
10/09/2019 9:30 - 16:30	Henfaes, Llanfairfechan, Gwynedd LL33 0LB
Geraint Jones - 07398 178 698 geraint.jones@menterabusnes.co.uk	

Gwella rheolaeth porfa a geneteg y ddiadell ar fferm ucheldir	
12/09/2019 16:00 - 18:30	Rhiwgriafol, Machynlleth SY20 8NY
Lisa Roberts - 07399 849 148 lisa.roberts@menterabusnes.co.uk	

Rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy	
18/09/2019 11:00 - 14:00	Glanrafon, Llangernyw LL22 8PF
Geraint Jones - 07398 178 698 geraint.jones@menterabusnes.co.uk	

Rheoli Mastitis yn eich buches - Manteision y Cynllun Rheoli Mastitis	
24/09/2019 11:00 - 15:00	Fferm Longlands, Redwick, Magwyr NP26 3DX
Imogen Ward 07985 379 819 imogen.ward@menterabusnes.co.uk	

CYMORTHFEYDD (09:00 - 17:00) Apwyntiad 1 awr		
Cymhorthfa Olyniaeth	18/07/2019	Bangor
Cymhorthfa Gynllunio	02/08/2019	Dolgellau
Cymhorthfa Olyniaeth	07/08/2019	Aberystwyth
Cymhorthfa Gynllunio	16/08/2019	Hwlfordd
Cymhorthfa Olyniaeth	21/08/2019	Llanelwy
Helen Lewis - 01970 631 425 helen.lewis@menterabusnes.co.uk		

Mae'r holl wybodaeth yn gywir adeg argraffu